Cynllun newydd i atal hunanladdiad a hunan niwed : Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr

Bydd cynllun newydd i atal hunanladdiad a hunan-niwed yn y gogledd yn ceisio gwneud y mater yn 'fater o bwys i bawb'.

Mae sefydliadau yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Iechyd Cyhoeddus Cymru, awdurdodau lleol, Heddlu Gogledd Cymru a grwpiau'r trydydd sector yn cynnwys y Samariaid wedi dod ynghyd i ddatblygu cynllun gweithredu strategol i leihau hunanladdiad a hunan niwed dros y tair blynedd nesaf.
Dynodwyd y cynllun fel blaenoriaeth allweddol yn strategaeth iechyd meddwl Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a gyhoeddwyd yn ddiweddar – sy'n nodi'r cyfeiriad ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a lles ar draws Gogledd Cymru.

- **Darllen rhagor : Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr**
- 'Cynllun Strategol Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed yng Ngogledd Cymru 2018-21' : Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- Teimladau hunanladdol : meddwl.org
- Hunan-niweidio : meddwl.org
- Cymorth : meddwl.org